**Y Groglith**

**Darllen Mathew 27:40**

Mae hwn yn gwestiwn digon naturiol. Pwy oedd ar y Groes? Y dyn oedd wedi gostegu'r storm ar Lyn Galilea. Y dyn oedd wedi gwella'r cleifion, wedi bwydo'r miloedd ac wedi codi'r meirw. Dyma pwy oedd ar y Groes. Dim ond iddo wneud un wyrth anhygoel arall byddai'r cwbl yn tanseilio awdurdod y Sanhedrin ac yn gwneud sbort am ben yr Ymerodraeth Rufeinig! A mwy na hynny, byddai miloedd ar filoedd yn ei ddilyn. 'Os Mab Duw wyt ti … disgyn oddi ar y groes'.

Cwestiwn digon rhesymol gan un o'r dyrfa. Pam na wnaeth o ddod i lawr oddi ar y groes os oedd y gallu ganddo? Wrth geisio ateb y cwestiwn hwn plymiwn i ddirgelwch Calfaria. Fedrai Iesu ddim dod oddi ar y groes. Roedd yr hoelion, y picellau a drywanwyd i'w gorff – i'w ddwylo a'i draed – yn ei ddal ar y groes. Ond na! Nid hoelion y Rhufeiniaid oedd yn dal Iesu ar y groes, ond pwrpas Duw ei hun. Roedd perthynas Iesu â'r groes yno o'r dechrau, cyn i Caiaffas a'r Sanhedrin ei ddedfrydu, cyn i Pilat ei draddodi a chyn i'r proffwydi sôn amdano. Nid digwyddiad hanesyddol yn unig ydi Calfaria, ac eto dyma'r eiliad yr oedd yr holl greadigaeth yn symud tuag ati. Roedd Iesu'n cael ei ddal ar y groes gan bŵer deinamig Duw ei hun – sef cariad Duw at ddyn. Am un eiliad, safwch chi yno a syllwch ar y groes. Tynnwch holl gymeriadau Calfaria oddi yno – y gwylwyr a'r gwragedd – ac arhoswch chi yno. Byddai Iesu wedi aros yno er eich mwyn chi. Ie, chi'r unigolyn. Dyna hyd a lled a dyfnder cariad Duw tuag atoch. Dyma ddarlun bendigedig o werth yr unigolyn. Rydych chi'n cyfrif. Mae Iesu wedi mynd i'r groes, ac wedi aros yno, er eich mwyn chi.

Beth petai'r gwragedd a'r disgyblion wedi casglu eu ffrindiau a thrigolion Nasareth at ei gilydd ac wedi ceisio ei dynnu i lawr oddi ar y groes? Beth fyddai wedi digwydd? Byddai wedi aros yno, a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, o'i fodd yr aeth i'r groes. Hawdd iawn fyddai iddo osgoi'r groes. Doedd dim rhaid iddo fynd i Jerwsalem; byddai wedi gallu aros yng Ngalilea a chrwydro'r wlad gyfagos yn dysgu egwyddorion y deyrnas. O'r bedydd yn nyfroedd yr Iorddonen, ac ar hyd ei weinidogaeth, uniaethodd Iesu â phechaduriaid. Nhw oedd ei bobl. Fe'u dewisodd nhw'n ddisgyblion iddo. Bu'n eu dysgu, eu hiacháu a'u hyfforddi; a bu farw rhwng dau ohonynt ar Galfaria. Bu farw dros bechaduriaid.

Soniodd hefyd am ei awr. Nid awr Caiaffas, Annas, Pilat, y Sanhedrin na'r Rhufeiniaid oedd Calfaria, ond awr Duw. Nid dyn yn cael ei dynnu at y groes yn erbyn ei ewyllys gan ddynion drwg a gawn yn yr efengylau. Yr hyn a gawn yw Iesu, Fab Duw, yn dewis y groes. Gallai'n hawdd fod wedi cerdded llwybr arall. Concrodd hyn yn yr anialwch pan gafodd ei brofi, a gadawodd yr anialwch yn goncwerwr a mynnu cerdded llwybr Duw, llwybr a arweiniai ar hyd y Via Dolorosa, Ffordd y Gwaed a arweiniai i Galfaria. Hon oedd awr Duw, gan fod Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun. Dyma ateb Duw i bechadur – i chi.

**Myfyrdod pellach:**
Oni fyddai Iesu wedi gwneud mwy o ddaioni petai wedi osgoi Calfaria?
Beth am y cysyniad o Iesu'n marw yn ein lle?

***Huw John Hughes***